

## PWYLLGOR DEDDF YSTÂD YR EGLWYS YNG NGHYMRU

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 31 Ionawr, 2023.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cyngorydd M.R. Wilson (Cadeirydd); Cyngorydd P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, J.E. Charles, H.C. Hamilton ac M.J. Hooper.

### EITEM AGENDA 2. COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref, 2022 fel cofnod cywir.

### EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

### EITEM AGENDA 4. DIWEDDARIAD BUDDSODDI – CYFLWYNIADAU BUDDSODDI I'W DARPARU YN Y CYFARFOD GAN EVELYN PARTNERS A CCLA (CAC) –

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y Buddsoddiadau a reolir ar hyn o bryd gan Evelyn Partners ar gyfer Ystad Deddf Degwm yn cael eu tynnu'n ôl a'u hail-fuddsoddi gyda CCLA.

(2) Y dylid dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid, er mwyn paratoi, cwblhau a gweithredu'r ddogfennaeth gyfreithiol ofynnol mewn perthynas â Phenderfyniad (1) uchod.

(3) Y dylid gofyn i'r Rheolwr Gweithredol dros Gyfrifeg gysylltu â CCLA am ragor o wybodaeth ynghylch agweddau iechyd meddwl yn y gweithle, mynediad i'w gweminar a gwybodaeth seminar, a'u gwahodd i fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor ymhen 6 mis.

### Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Rhoi sylw i rwymedigaethau'r Ymddiriedolwyr i adolygu Buddsoddiadau Ystad Deddf Degwm Bro Morgannwg yn rheolaidd, a chyda'r nod o geisio enillion uwch ar fuddsoddiadau a ffioedd is.

(2) Darparu awdurdod dirprwyedig er mwyn i'r ddogfennaeth angenrheidiol gael ei gweithredu.

(3) Hysbysu'r Pwyllgor ymhellach am waith CCLA a chael ei ddiweddarau ganddynt ar drosglwyddo buddsoddiadau a pherfformiad hyd at y pwynt hwnnw.

EITEM AGENDA 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON 2021/22 AC ARCHWILIAD ANNIBYNNOL (CAC) –

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021/22 fel y'u nodir yn Atodiad A i'r adroddiad ac awdurdodi'r Cadeirydd i'w lofnodi ar ran yr Ymddiriedolwyr.

Rheswm dros y penderfyniad

Yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 a Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008.